# Asesiad Strwythuredig 2022 – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3560A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio strategol 8

Trefniadau llywodraethu 11

Rheoli adnoddau ariannol 22

Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill 26

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 30

Atodiad 2 – Ymateb sefydliadol i'r argymhellion archwilio 32

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae’r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2022 ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi’i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi’i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

2 Digwyddodd ein gwaith ar gyfer Asesiad Strwythuredig 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan argyfwng iechyd y cyhoedd ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel, ymatebol o ansawdd da, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Bu ffocws allweddol y gwaith ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; ei drefniadau cynllunio strategol; ei drefniadau rheoli ariannol; a’i drefniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Mae manylion yr ymagwedd a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith i’w gweld yn **Atodiad 1**.

4 Rydym hefyd wedi darparu diweddariadau ar gynnydd yn erbyn argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

## Negeseuon allweddol

5 Ar y cyfan, canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da, ond bod angen iddo ddiweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i gael dealltwriaeth glir am risgiau, sicrhau nad oes bylchau allweddol yn ei drefniadau llywodraethu, a helpu i ddatblygu a blaenoriaethu cynlluniau gwaith.

6 Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth hirdymor sydd wedi hen ennill ei phlwyf a ffocws clir ar ei flaenoriaethau clinigol. Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) cymeradwy ar waith, a hwnnw wedi cael ei ddatblygu gydag ymgysylltiad y Bwrdd. Fodd bynnag, mae cyfle i ymgysylltu â'r Bwrdd yn gynharach yn y broses gynllunio. Mae trefniadau da ar gyfer datblygu cynlluniau, gyda ffocws clir ar ofal iechyd a gwasanaethau a gomisiynwyd sy’n seiliedig ar werthoedd. Mae trefniadau

eglur ar waith hefyd ar gyfer monitro’r modd y cyflawnir y CTCI a'r cynlluniau ategol ond mae angen mwy o ffocws ar fesurau ac effaith.

7 Mae gan y Bwrdd Iechyd rai ffynonellau sicrwydd effeithiol, ond mae’n dal heb ddiweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Ar y cyfan mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau’n gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau allweddol y Bwrdd Iechyd, mynd i'r afael â rhai bylchau mewn sicrwydd, cryfhau adborth staff, a gwella mecanweithiau hunan-adolygu’r Bwrdd. Er gwaethaf rhai penodiadau newydd, mae newid parhaus yn dal i ddigwydd ar lefel Weithredol a all arwain at ansefydlogrwydd gyda risg bod y portffolio gweithrediadau’n anghymesur. Mae trefniadau llywodraethu interim bellach wedi cael sylw; fodd bynnag, mae'r capasiti i gefnogi'r swyddogaeth lywodraethu’n broblem.

8 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021-22, ond er bod ganddo gynllun ariannol mantoledig, mae bellach yn rhagweld diffyg ariannol ar ddiwedd y flwyddyn 2022-23. Mae hyn yn golygu y bydd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer refeniw. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar gyfer rheoli a rheolaeth ariannol, a uwchgyfeiriwyd ar lefel weithredol i leihau effaith pwysau ariannol i’r eithaf yn ystod y flwyddyn. Mae goruchwylio a chraffu ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd wedi gwella gyda gwybodaeth fwy amserol bellach yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd a phwyllgorau perthnasol.

9 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i gefnogi a goruchwylio lles staff, ond gallai wneud mwy i fonitro cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol. Cydnabyddir bod technoleg ddigidol yn alluogydd allweddol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei fframwaith digidol, ond mae’r seilwaith digidol ac argaeledd cyllid yn broblemau sylweddol. Ar y cyfan mae gan y Bwrdd Iechyd oruchwyliaeth dda ar reoli ystadau er y gellid gwella gwelededd a thrafodaeth ar lefel y Bwrdd.

# Argymhellion

10 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn ei grynhoi yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2022.**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Gwella trefniadau cynllunio strategol**<br>A1 Mae cyfleoedd yn bodoli i ymgysylltu ag Aelodau Annibynnol ar adeg gynnar yn y broses o gynllunio'r CTCI i alluogi'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswydd yn llawn i osod cyfeiriad strategol y sefydliad. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd roi |

**Argymhellion**

trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod Aelodau Annibynnol yn cael eu cynnwys yn briodol ym mhob cam yn y broses o gynllunio'r CTCI.

A2 Mae adroddiadau cyflawni ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodir yn y CTCI yn rhai naratif yn bennaf a cheir diffyg ffocws ynddynt ar fesurau ac effaith. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd ailedrych ar ei adroddiadau cyflawni i sicrhau eu bod yn gryno, yn rhoi llai o bwyslais ar naratif, ac yn canolbwyntio'n fwy ar fesurau ac effaith.

**Gwella systemau sicrwydd ymhellach**

A3 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiweddaru sy'n mapio'r holl gyfleoedd a risgiau i gyflawni amcanion strategol, yn nodi bylchau mewn sicrwydd, ac yn goleuo cynlluniau gwaith y Bwrdd a phwyllgorau. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

A4 Mae datgysylltiad ar hyn o bryd rhwng cofrestrau risgiau Cyfarwyddiaethau a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r holl risgiau uchel ar gofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau bod y rhai perthnasol yn cael eu huwchgyfeirio at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a bod y Bwrdd yn ymwybodol o'r risgiau ehangach a allai ddod yn ffaith.

**Gwella effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau**

A5 Mae cyfleoedd yn bodoli i wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau allweddol y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau:

a) bod polisïau a gweithdrefnau, a'r gofrestr o fuddiannau ar y wefan gyhoeddus, yn hygyrch; a
b) bod y dogfennau allweddol, gan gynnwys Rheolau Sefydlog, ar y wefan gyhoeddus yn cyd-fynd â'r fersiwn a gymeradwywyd yn fwyaf diweddar.

A6 Nid oes unrhyw fecanweithiau i Gadeiryddion pwyllgorau gwrdd yn ffurfiol y tu allan i gyfarfodydd pwyllgorau i rannu pryderon ac arfer da, ac nid oes mecanweithiau ar waith ychwaith i olrhain materion a chamau gweithredu a gyfeiriwyd rhwng pwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd roi mecanwaith ar waith:

a) i alluogi cadeiryddion pwyllgorau i ddod at ei gilydd yn rheolaidd; a
b) i'w gwneud yn bosibl tracio materion a chamau gweithredu a gyfeirir rhwng pwyllgorau a darparu adborth pan fyddant wedi'u cwblhau.

**Argymhellion**

A7 Nid yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn clywed gan staff, ac nid yw ymweliadau gan y Bwrdd wedi cael eu hadfer ers y pandemig. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd gynyddu cyfleoedd i aelodau'r Bwrdd glywed gan staff. Dylai hyn gynnwys defnyddio straeon staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, ac adfer ymweliadau gan y Bwrdd ar frys.

A8 Er gwaethaf gofynion y Rheolau Sefydlog, nid oes gan y Bwrdd Iechyd Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol na Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid o hyd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu'r ddau grŵp fel mater o frys.

A9 Mae cyfleoedd yn bodoli i wella hunan-adolygiadau o effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael eu cofnodi a'u monitro trwy gynllun gweithredu; a
b) cynnwys eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau i'w gwneud yn bosibl adolygu'r cyfarfod.

**Recriwtio i swyddi allweddol**

A10 Mae gan y Bwrdd Iechyd sawl swydd interim ar lefel uwch a all achosi ansefydlogrwydd i wasanaethau a staff. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio penodi'n barhaol i'r swyddi interim o fewn y tîm Gweithredol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau cynllunio strategol

11 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ynglŷn â threfniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- gweledigaeth ac amcanion strategol;
- Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI);
- trefniadau cynllunio; a
- threfniadau ar gyfer rhoi strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar waith a monitro'r modd y cânt eu cyflawni.

12 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd strategaeth hirdymor sydd wedi hen ennill ei phlwyf a ategir gan CTCI cymeradwy. Mae ganddo drefniadau da i ddatblygu a monitro'r modd y cyflawnir ei gynlluniau, ond mae cyfle i ymgysylltu â'r Bwrdd yn gynharach yn y broses gynllunio a chynyddu ei ffocws ar fesurau ac effaith.**

### Gweledigaeth ac amcanion strategol

13 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gweledigaeth glir a strategaeth hirdymor ar waith ar gyfer y sefydliad. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi'u gwreiddio mewn dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol wedi cael eu datblygu a'u mabwysiadu gan y Bwrdd; ac
- a yw'r strategaeth hirdymor yn cael ei thanategu gan strategaeth glinigol hirdymor briodol.

14 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd strategaeth hirdymor sydd wedi hen ennill ei phlwyf a ffocws clir ar ei flaenoriaethau clinigol.**

15 Mae gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Iechyd a Gofal sydd wedi hen ennill ei phlwyf, sy'n rhychwantu'r cyfnod o 2017-2027, ac sy'n amlinellu ei weledigaeth ar gyfer Powys Iach a Gofalgar. Datblygwyd y strategaeth mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Powys ac mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, partneriaid, a'r cyhoedd gan ystyried eu profiad a'u barn ynglŷn ag iechyd ym Mhowys. Goleuwyd y strategaeth gan Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys ac Asesiad o Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n seiliedig ar dair thema – Dechrau Da, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda - gyda sawl blaenoriaeth a galluogydd i hybu'r uchelgais hwn.

16 Ochr yn ochr â'r strategaeth mae Portffolio Adnewyddu'r Bwrdd Iechyd, sy'n cyfuno adferiad a thrawsnewid ac yn canolbwyntio ar chwe blaenoriaeth adnewyddu clinigol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar arfarniad mewnol y Bwrdd Iechyd

o effeithiau'r pandemig ac wedi'u gwreiddio yn yr anghenion sy’n flaenoriaeth i boblogaeth Powys. Maent yn adeiladu ar egwyddorion y strategaeth a chynllun y Bwrdd Iechyd i sicrhau ffocws ar y pethau hynny sydd o’r pwys mwyaf i lesiant ei boblogaeth a'r pethau hynny a fydd yn gweithio orau i fynd i'r afael â'r heriau tyngedfennol sydd o’i flaen.

## Cynllun Tymor Canolig Integredig

17 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) cymeradwy ar gyfer 2022-2025. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a gyflwynwyd y CTCI o fewn yr amserlenni gofynnol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- a gafodd fersiynau drafft a therfynol y CTCI eu trafod, eu herio a’u cytuno gan y Bwrdd cyn eu cyflwyno; ac
- a gafodd y CTCI gymeradwyaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

18 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd CTCI cymeradwy, ond bod cyfle i ymgysylltu â'r Bwrdd yn llawer cynharach yn y broses gynllunio.**

19 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cynhyrchu CTCI a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-2025. Cafodd y CTCI drafft ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol. Cafwyd cymeradwyaeth y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2022.

20 Trafodwyd CTCI drafft cynnar yn fanwl yn un o sesiynau datblygu'r Bwrdd ym mis Chwefror 2022, gan roi’r cyfle i Aelodau Annibynnol gyfrannu. Fodd bynnag, dim ond mis cyn y dyddiad cau ar gyfer ei gyflwyno oedd hyn. Felly, gallai fod o fudd i’r Bwrdd Iechyd gynnwys Aelodau Annibynnol yn llawer cynharach wrth ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol er mwyn caniatáu amser i unrhyw newidiadau sylweddol gael eu gwneud cyn eu cyflwyno. Byddai hyn hefyd yn rhoi mwy o rôl i Aelodau Annibynnol o ran pennu cyfeiriad strategol y sefydliad fel a nodir yn y Rheolau Sefydlog (**Argymhelliad 1**).

## Trefniadau cynllunio ehangach

21 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol ar y broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a ddatblygwyd strategaethau a chynlluniau corfforaethol mewn cyswllt â rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol;
- a yw egwyddorion gofal iechyd darbodus ac sy'n seiliedig ar werthoedd yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol; ac

- a yw'r trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon, ac yn cyd-fynd â strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

22 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer datblygu ei gynlluniau, gyda ffocws clir ar ofal iechyd a gwasanaethau a gomisiynwyd sy'n seiliedig ar werthoedd.**

23 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith i oruchwylio datblygiad ei gynlluniau corfforaethol. Mae Grŵp Craidd y Cynllun Integredig yn goruchwylio datblygiad y CTCI a'r cynlluniau cyflawni a galluogi tanategol. Mae'r broses ar gyfer datblygu'r cynlluniau wedi'i nodi'n glir i'r Bwrdd, a darperir goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau a Phoblogaeth. Mae'r broses hefyd yn nodi adegau eglur pan ymgysylltir â rhanddeiliaid, gan gynnwys staff a'r cyhoedd. Fel a grybwyllir ym **mharagraff 15,** datblygwyd y strategaeth 10 mlynedd mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid gan gynnwys Cyngor Sir Powys, y mae ganddo berthynas waith agos gydag ef. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn rhagweithiol o ran sicrhau bod ei gynlluniau corfforaethol yn cael eu datblygu a'u gosod o fewn y cyd-destun strategol.

24 Mae gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd yn amlwg drwy gynlluniau a pholisïau'r Bwrdd Iechyd ac fe'i cydnabyddir fel blaenoriaeth strategol annibynnol yn y CTCI. Mae gwaith y Bwrdd Iechyd ym maes gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Meddygol. Mae hyn yn sicrhau bod gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd yn rhychwantu gwahanol arbenigeddau o fewn y Bwrdd Iechyd, bod perchnogaeth ar y flaenoriaeth yn ymestyn ar draws disgyblaethau, ac mae'n ei gwneud yn haws gwreiddio gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd yn gorfforaethol. Mae hyn yn amlwg yn yr iaith a ddefnyddir gan gyflogeion y Bwrdd Iechyd sy'n ystyried bod gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd yn fframwaith cyflawni hanfodol.

25 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n fawr ar wasanaethau a gomisiynwyd, ac mae gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau'n flaenoriaeth allweddol o fewn y CTCI. Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd Comisiynu tra datblygedig sy'n ei gwneud yn bosibl monitro ansawdd a pherfformiad y gwasanaethau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bartner allweddol mewn nifer o raglenni strategol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, megis Cydweithrediad Iechyd Canolbarth Cymru ac mae ei rôl o fewn y trefniadau hyn yn cael ei adlewyrchu yn y CTCI a'r strategaeth 10 mlynedd. Fodd bynnag, mae peth gweithgarwch comisiynu y tu allan i'r trefniadau hyn, gan gynnwys adnoddau sylweddol a ddyrennir i gomisiynu darpariaeth Gofal Iechyd Parhaus. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod cyfle i dynhau trefniadau comisiynu ar gyfer darpariaeth Gofal Iechyd Parhaus er mwyn sicrhau defnydd gwell o adnoddau, fel ffordd o gael mwy o afael ar bwysau ariannol Gofal Iechyd Parhaus.

## Trefniadau gweithredu a monitro

26 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio’r modd y cyflawnir strategaethau a chynlluniau corfforaethol, yn craffu ar hynny ac yn ei herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cynnwys cerrig milltir, targedau a chanlyniadau clir, sydd o gymorth gyda gweithgarwch monitro ac adrodd; ac
- a yw'r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd tuag at gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

27 Canfuom fod **trefniadau clir i fonitro'r modd y cyflawnir y CTCI a chynlluniau ategol, ond bod angen mwy o ffocws ar fesurau ac effaith.**

28 Mae CTCI 2022-25 yn cyd-fynd â strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd. Mae'r CTCI yn nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu clir, gan gynnwys cyflawni cynlluniau ategol, a sawl canlyniad lefel uchel. Fe’i hategir gan Gynllun Cyflawni Blynyddol clir sy'n nodi pryd y gall y Bwrdd ddisgwyl i'r camau gweithredu a'r cynlluniau gael eu cyflawni, y swyddogion sy’n gyfrifol, a'r llwybr y gall ddisgwyl cael sicrwydd priodol drwyddo. Fodd bynnag, nid yw’r CTCI yn cynnwys unrhyw fanylion ynghylch sut y bydd effaith y camau gweithredu a'r canlyniadau'n cael eu mesur, ac eithrio cyfeiriad at dargedau gweinidogol GIG Cymru.

29 Mae trefniadau clir ar waith i fonitro'r modd y cyflawnir y CTCI, er y gallai adroddiadau fod yn gliriach gyda mwy o ffocws ar fesurau ac effaith. Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd o ran cyflawni pob un o'r blaenoriaethau wrth y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad a’r Bwrdd. Mae'r adroddiadau cyflawni chwarterol yn defnyddio sgôr cod lliwiau i amlygu blaenoriaethau nad ydynt ar y trywydd iawn. Fodd bynnag, mae gwybodaeth yn yr adroddiadau ar ffurf naratif yn bennaf gyda defnydd cyfyngedig o ddata. Felly, gallai fod o fudd gwneud yr adroddiadau’n fwy cryno, gyda mwy o ffocws ar effaith a'r gwahaniaeth y mae'r gwaith yn ei wneud (**Argymhelliad 2**).

# Trefniadau llywodraethu

30 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ynglŷn â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gyda ffocws penodol ar y canlynol:

- systemau sicrwydd allweddol;
- effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau; ac
- i ba raddau y mae dyluniad sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da.

31 Mae manylion y cynnydd a wnaed gydag argymhellion o flynyddoedd blaenorol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd i’w gweld yn **Arddangosyn 2**.

32 Canfuom fod **trefniadau llywodraethu’n effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae taer angen Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiweddaru. Mae angen**

**gwella adborth staff a mecanweithiau hunan-adolygu'r Bwrdd hefyd. Mae ansefydlogrwydd a chapasiti o fewn y strwythur gweithredol yn dal i fod yn risg.**

## Systemau sicrwydd

33 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n goruchwylio risgiau sefydliadol, perfformiad ac ansawdd gwasanaethau, yn craffu arnynt ac yn eu herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd effeithiol ar waith, sy'n cael ei adolygu a'i berchnogi'n weithredol gan y Bwrdd;
- a yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i danategu gan systemau priodol ar gyfer rheoli risgiau a pherfformiad; goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a thrin gwybodaeth mewn modd diogel; ac
- a gymerir camau gweithredu effeithiol i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion archwilio ac adolygu.

34 Canfuom**, er bod gan y Bwrdd Iechyd rai ffynonellau sicrwydd effeithiol, bod cyfle i gryfhau eraill, megis Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.**

35 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod heb Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiweddaru. Fe wnaethom nodi'n flaenorol yn adroddiad 2021 nad oedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yn strategaeth y Bwrdd Iechyd ac nad oedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ers mis Ionawr 2020. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi bwriadu diweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd erbyn 31 Mawrth 2022, ond mae hyn yn dal heb gael ei wneud. Mae diffyg Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiweddaru'n fwlch allweddol o ran sicrhau bod risgiau i gyflawni strategaeth y Bwrdd Iechyd yn cael eu nodi'n glir, bod gwaith mapio sicrwydd priodol wedi digwydd i adnabod bylchau mewn sicrwydd a mynd i'r afael â hwy, a bod rheolaethau ar waith i liniaru'r risgiau (**Argymhelliad 3**).

36 Mae trefniadau rheoli risg ar waith ond mae angen i'r rhain gyd-fynd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiweddaru. Cafodd Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd a'i Barodrwydd i Dderbyn Risg eu diweddaru ddiwethaf a'u cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2022, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Mae'r fframwaith yn nodi y dylai'r risgiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol gyd-fynd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd; fodd bynnag, fel a nodwyd yn flaenorol, nid yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn gyfredol. Cyflwynir y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Er nad yw'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei hun yn cael ei thrafod ryw lawer, trafodir y pynciau risg-uchel (fel cyllid) yn fanwl, a dyrennir pob un o'r risgiau i bwyllgor ar gyfer goruchwyliaeth. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn ystyried y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac mae ymarfer 'tudalen wag' wedi cael ei gynnal trwy sesiwn datblygu'r Bwrdd i adolygu'r risgiau corfforaethol. Gwnaed gwelliannau yn ystod y flwyddyn hefyd, megis rhannu'r risg cyllid, gan gydnabod yr heriau y

mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu i gynnal sefyllfa lle mae'n adennill costau o fewn y flwyddyn.

37 Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol ym mis Gorffennaf 2022 sicrwydd rhesymol ar reoli risg, gan nodi bod angen ehangu codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar draws yr holl wasanaethau. Mae cofrestrau risgiau Cyfarwyddiaethau'n dal i fod yn seiliedig ar daenlenni, cyn gweithredu'r system Unwaith i Gymru[1]. Fodd bynnag, ni chawsant eu cynnal yn ystod y pandemig oherwydd galwadau gweithredol sylweddol COVID-19. Mae hyn wedi arwain at ddatgysylltiad rhwng cofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Cyn y pandemig, byddai Grŵp Risg a Sicrwydd yn ystyried risgiau cyfarwyddiaethau ac yn argymell unrhyw rai yr oedd angen eu huwchgyfeirio at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Er bod y grŵp hwn wedi cael ei ailsefydlu, dim ond unwaith y mae wedi cwrdd, a hynny ym mis Gorffennaf 2022. Mae gan y Bwrdd Iechyd awydd i wella ei drefniadau rheoli risg fel bod hynny'n goleuo gweithgarwch y Bwrdd yn well. Mae angen ymarfer yn awr i ailasesu risgiau uchel ar draws cyfarwyddiaethau a'u cysoni â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i sicrhau bod unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg ar lefel weithredol ar radar y Bwrdd (**Argymhelliad 4**).

38 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad. Cymeradwywyd y Fframwaith Rheoli Perfformiad Integredig diwygiedig gan y Bwrdd ym mis Medi 2022. Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad Integredig wedi'i ddiweddaru'n ymgorffori Fframwaith Sicrwydd Comisiynu'r Bwrdd Iechyd ac yn cwmpasu'r cyfnod 2022-2026 gydag adolygiad blynyddol. Mae hefyd yn cyd-fynd â fframwaith perfformiad GIG Cymru gan gynnwys blaenoriaethau gweinidogol. Mae mecanweithiau adolygu perfformiad ar waith o fewn y Fframwaith Rheoli Perfformiad Integredig, o arfarniadau personol i sicrwydd ar gyfer y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn gynhwysfawr ac yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad a'r Bwrdd yn unol â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad Integredig. Mae'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad hefyd yn cael ystod o ddata ar berfformiad ac adroddiadau ar berfformiad chynlluniau perfformiad mwy lleol.

39 Mae trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd yn gwella ers ein gwaith blaenorol yn 2021[2]. Datblygodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Ansawdd Clinigol yn 2020, sydd â chynllun gweithredu i gyd-fynd ag ef. Mae'r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yn cael diweddariadau ar y cynllun yn rheolaidd. Mae'r diweddariad diweddaraf yn dangos llawer o feysydd lle gwnaed cynnydd. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud mewn sawl maes, megis adnewyddu'r fframwaith profiad cleifion, arweinyddiaeth glinigol mewn prosiectau gwella ansawdd, a meincnodi. Mae'r Adroddiad Ansawdd Integredig i'r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yn rhoi trosolwg gynhwysfawr o ansawdd a

[1] Disgwylir i'r modiwl risg o fewn y System Rheoli Cynnwys Unwaith i Gymru gael ei ddefnyddio ar draws y Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2023.

[2] Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd, Hydref 2021

diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cwynion, pryderon ac adolygiadau o farwolaethau. Mae diweddariad cynhwysfawr am y cynllun archwilio clinigol yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hefyd.

40 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da gyda'i drefniadau llywodraethu gwybodaeth, ond mae rhai meysydd yn dal i beri pryder. Yn 2021-22, ailadroddodd y Bwrdd Iechyd ei hunanasesiad yn erbyn pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth y GIG. Mae'r lefelau sicrwydd ar draws pum parth y pecyn cymorth[3] wedi gwella ers 2020-21 i'r lefel uchaf o sicrwydd, ac eithrio un parth sydd wedi aros yr un fath. Mae camau i fynd i'r afael â'r diffygion wedi'u nodi mewn cynllun gwella sy'n cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad. Fodd bynnag, nid oedd rheoli cofnodion wedi'i gynnwys yn yr wybodaeth hunanasesu a gyflwynwyd. Yn 2019, rhoddodd adroddiad Archwilio Mewnol ar reoli cofnodion sgôr 'dim sicrwydd'. Araf fu'r cynnydd yn erbyn argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn, gyda gwaith sy’n dal heb ei wneud yn galw am fuddsoddiad sylweddol i roi cymorth i ddigideiddio cofnodion. Amlygodd diweddariad i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad ym mis Mehefin 2022 fod angen gwneud cynnydd sylweddol o hyd ar bump o'r chwe argymhelliad. Cytunodd y Pwyllgor i uwchgyfeirio rheoli cofnodion i'r gofrestr risgiau corfforaethol tra bod gwaith yn mynd rhagddo, ond ar adeg ein gwaith ni, nid oedd hyn wedi digwydd.

41 Mae angen mwy o waith hefyd i wella trefniadau seiberddiogelwch y Bwrdd Iechyd. Amlygodd diweddariad ar Gynllun y Rhaglen Trawsnewid Digidol ar gyfer 2021-22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad ym mis Mehefin 2022 nad oedd yr wyth tasg sydd wedi’u neilltuo i wella seiberddiogelwch wedi dechrau eto, er m mai ym mis Mawrth 2022 yr oedd y dyddiadau cwblhau. Amlygwyd meysydd i'w gwella yn y Fframwaith Asesu Seiber yn 2021 hefyd er mwyn cydymffurfio â’r rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS)[4]. Ers yr adroddiad diweddaru, gwnaed rhai gwelliannau megis buddsoddiadau mewn llwyfannau monitro ac uwchraddio trwyddedau. Nid yw seiberddiogelwch yn cael sylw yn y Bwrdd fel mater o drefn, ond mae sesiwn datblygu'r Bwrdd wedi'i threfnu i drafod seiberddiogelwch. Fodd bynnag, gan nad yw sesiynau datblygu'r Bwrdd yn rhan o brosesau sicrwydd ffurfiol y Bwrdd Iechyd, efallai y bydd am ystyried cynnal cyfarfod Bwrdd caeëdig yn lle hynny i drafod gwybodaeth sensitif.

42 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer olrhain canfyddiadau ac argymhellion archwilio ac adolygu. Ym mis Mehefin 2022, rhoddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol sicrwydd sylweddol ynghylch trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd o ran rhoi argymhellion Archwilio Mewnol ar waith. Cyflwynir adroddiad diweddaru cynhwysfawr sy’n nodi cynnydd yn erbyn

[3] Y pum parth yw cyfrifoldebau busnes; rheoli busnes; hawliau a rhwymedigaethau unigol; mesurau technegol, ffisegol a sefydliadol; ac adrodd ar achosion o danseilio diogelwch data.

[4] Daeth y Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS), sy’n amcanu at godi lefelau seiberddiogelwch a chydnerthedd systemau allweddol ledled yr UE, i rym yn y DU ym mis Mai 2018.

argymhellion o waith archwilio mewnol ac allanol, a gwaith atal twyll, ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer yr argymhellion a roddwyd ar waith a'r rhai sydd heb eu rhoi ar waith. Er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r pwyllgor, gallai'r Bwrdd Iechyd hefyd ystyried cynnwys gwybodaeth sy'n nodi'r broses ar gyfer cau argymhellion.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau

43 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnal eu busnes yn effeithiol ac yn cefnogi llywodraethu da. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau’n dangos lefelau priodol o dryloywder cyhoeddus;
- a gynhelir cyfarfodydd yn briodol gan gael eu hategu gan Gynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chofrestrau Buddiannau eglur;
- a oes strwythur pwyllgorau sy’n briodol ac yn gweithredu’n dda islaw lefel y Bwrdd;
- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau’n cael yr wybodaeth gywir, gan gynnwys barn gan staff a defnyddwyr gwasanaethau; ac
- a oes tystiolaeth o hunan-adolygu digonol gan y Bwrdd a'i bwyllgorau.

44 Canfuom fod **y Bwrdd a phwyllgorau’n gweithredu'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau allweddol, mynd i'r afael â bylchau mewn rhai ffynonellau sicrwydd, cryfhau adborth gan staff, a gwella mecanweithiau hunan-adolygu.**

45 Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn ymrwymedig i dryloywder cyhoeddus. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn dal i gael eu cynnal yn rhithwir. Maen nhw'n cael eu ffrydio'n fyw, gyda recordiadau ar gael i'w gweld trwy wefan y Bwrdd Iechyd yn fuan wedyn. Hyrwyddir cyfarfodydd drwy'r wefan ac mae papurau ar gael i'r cyhoedd saith niwrnod ymlaen llaw. Mae faint o fusnes a drafodir mewn sesiynau preifat yn briodol. Mae pob cyfarfod pwyllgor yn dal i gael ei gynnal yn rhithiol hefyd. Er nad ydynt yn cael eu ffrydio'n fyw, gall aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol ar gais. Fodd bynnag, mae cyfle i wella tryloywder ymhellach. Yn wahanol i gyrff eraill y GIG, nid yw polisïau'r Bwrdd Iechyd (yn rhai clinigol ac anghlinigol) ar gael i'r cyhoedd. Er bod cyfeiriad atynt ar wefan y Bwrdd Iechyd, dim ond y rhai sydd â chyfrif GIG Cymru sy'n gallu cael mynediad atynt. Rydym eisoes wedi argymell bod angen gwella mynediad at bolisïau ar wefan y Bwrdd Iechyd i alluogi tryloywder a hygyrchedd (**Argymhelliad 5a**).

46 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd o gymorth i gynnal busnes y Bwrdd a phwyllgorau mewn modd effeithiol. Adolygwyd y Rheolau Sefydlog, y Cynlluniau Dirprwyo, a’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ym mis Mai 2022. Gwnaed diweddariadau i'r portffolios cyfarwyddwyr dirprwyedig, cafodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ei gynnwys yn y Cynllun Dirprwyo, ac ychwanegwyd dirprwyaeth ariannol

ychwanegol i'r Dirprwy Brif Weithredwr. Mae cyfarfodydd yn dilyn prosesau llywodraethu'n gyson, gan gynnwys cofnodi ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant ac adolygu logiau o gamau gweithredu. Mae cofnodion cyfarfodydd blaenorol yn cael eu hadolygu hefyd, ac mae cofnodion wedi'u cadarnhau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd. Cyfyngir i'r eithaf ar y defnydd o gamau gweithredu gan Gadeiryddion hefyd gyda dim ond un cam gweithredu gan Gadeirydd wedi'i nodi yn 2022-23 ar adeg ein hadolygiad ni. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd Iechyd wella tryloywder ei gofrestr buddiannau. Er bod y gofrestr yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd, dim ond y rhai sydd â chyfrif GIG Cymru sy'n gallu cael mynediad ati (**Argymhelliad 5a**). Mae atodlenni'r rheolau sefydlog sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd wedi dyddio hefyd, gyda'r fersiynau diweddaraf a lanlwythwyd yn dyddio'n ôl i fis Gorffennaf 2021. Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfoes ar gael ac yn hygyrch, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru'r dogfennau ar-lein i'r fersiynau diweddaraf a gymeradwywyd (**Argymhelliad 5b**).

47 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n dda ar y cyfan. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau sicrwydd gan bob pwyllgor, sy'n rhoi trosolwg o'u busnes allweddol a meysydd y mae angen eu huwchgyfeirio a ffocws strategol ehangach. Mae amseriad pwyllgorau'n cael ei adolygu'n gyson i sicrhau bod materion yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae llifoedd sicrwydd rhwng pwyllgorau yn llai eglur. Ar adeg ein gwaith ni, nid oedd mecanwaith ffurfiol i gadeiryddion pwyllgorau gwrdd i drafod materion perthnasol a rhannu arfer da fel sy'n digwydd yng nghyrff eraill y GIG (**Argymhelliad 6a**). Ar ben hynny, nid oedd mecanwaith ar waith i dracio camau a gyfeiriwyd rhwng pwyllgorau a darparu adborth (**Argymhelliad 6b**). Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor yn gyfoes ac mae gan bob pwyllgor Gyfarwyddwr Gweithredol arweiniol y mae ei bortffolio yn cyd-fynd yn fras â ffocws y pwyllgor. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn sicrhau eu bod ar gael i'r Cadeirydd perthnasol y tu allan i'r pwyllgorau, er y gallai hyn fod yn fwy cyson ar draws pob pwyllgor. Mae tystiolaeth bod Cadeiryddion pwyllgorau'n cael mwy o fewnbwn i'w cynlluniau gwaith ac yn llunio agendâu yn unol â chylch gorchwyl y pwyllgor perthnasol sydd â'r potensial i arwain at gyfarfodydd â ffocws mwy penodol ac eitemau y creffir arnynt ar sail blaenoriaeth lle y bo'n ofynnol. Ar ôl ei ddiweddaru, dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i oleuo a siapio busnes y Bwrdd a phwyllgorau mewn modd gweithredol (**Argymhelliad 3**).

48 Mae'r wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau o safon dda yn gyffredinol, ond mae'r modd y'i cyflwynir a'i hamseroldeb yn amrywio. Cyflwynir yr eitemau gan Gyfarwyddwyr Gweithredol neu aelodau o staff perthnasol, a chroesewir cwestiynau a sylwadau. Mae lefel yr her a'r craffu gan Aelodau Annibynnol wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf ac mae hyn yn amlwg yn y cyfarfodydd yr arsylwom ni arnynt. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi myfyrio ynghylch ansawdd yr adroddiadau a'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno. O ganlyniad, mae rhai Cyfarwyddwyr Gweithredol bellach yn defnyddio cyflwyniadau i ganolbwyntio ar feysydd sy'n peri pryder, sydd i'w weld fel pe bai'n gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae angen gwaith o hyd i sicrhau bod adroddiadau'n cael eu hanelu ar y lefel

gywir a bod deilliannau ac effaith yn weladwy. Mae cyfle hefyd i gynyddu ystyriaeth i'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fewn trafodaethau ac wrth wneud penderfyniadau. Gellid adolygu'r amser a dreulir yn cyflwyno eitemau hefyd gan dybio y bydd Aelodau Annibynnol wedi darllen papurau ymlaen llaw. Mae hyn eisoes yn digwydd gyda llawer o eitemau, felly byddai cymhwyso'r arfer da hwn yn eang yn sicrhau bod mwy o amser yn cael ei dreulio yn craffu ac yn trafod y pwnc. Mae papurau hwyr yn dal i gael eu derbyn o bryd i'w gilydd hefyd sy'n effeithio ar yr amser sydd gan yr aelodau i ddarllen a dadansoddi adroddiadau cyn cyfarfodydd a pharatoi cwestiynau perthnasol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r materion hyn ac mae wrthi'n adolygu'r modd y cyflwynir gwybodaeth.

49 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ddangos ei ymrwymiad i glywed gan gleifion ond gallai wneud mwy i glywed gan staff a rhanddeiliaid ehangach. Mae storïau cleifion yn ymddangos yn rheolaidd yn y Bwrdd, gan gael derbyniad da a rhoi mewnwelediad gwerthfawr. Mae profiad cleifion hefyd yn nodwedd allweddol ar yr Adroddiad Ansawdd Integredig a gyflwynir i'r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch. Fodd bynnag, fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 39**, mae angen mwy o waith ar y Fframwaith Profiad Cleifion. Mae perthnasoedd sydd wedi hen ennill eu plwyf gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned, gyda phresenoldeb rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymgysylltu ag ystod o grwpiau yn y trydydd sector a grwpiau cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn clywed gan staff ac nid yw ymweliadau gan y Bwrdd wedi digwydd ers cyn y pandemig, sy'n achos pryder (**Argymhelliad 7**). Hefyd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol o hyd, er gwaethaf gofynion y Rheolau Sefydlog. Er bod gan y Bwrdd Iechyd fecanweithiau eraill ar gyfer ymgysylltu, mae cyfleoedd yn cael eu colli am nad yw'r grwpiau hyn yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd nac yn cyfrannu at drafodaethau strategol ehangach (**Argymhelliad 8**).

50 Mae'r Bwrdd wedi sefydlogi ar ôl cyfnod o newid, gyda phortffolio amrywiol o sgiliau a phrofiad bellach yn ei le. Ymdriniwyd yn dda â throsiant o ran aelodau'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd, gyda nifer o Aelodau Annibynnol eraill yn cael eu penodi. Mae trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd hefyd yn barod ar gyfer ymadawiad yr Aelod Annibynnol dros Gyllid yn gynnar yn 2023. Mae gan y Bwrdd gymysgedd o sgiliau a galluoedd, ond ar adeg ein gwaith ni, nid oedd asesiad ffurfiol o sgiliau wedi cael ei gynnal i adnabod bylchau penodol ar lefel y Bwrdd. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth y byddai angen mwy o brofiad ariannol ar y Bwrdd o ystyried y sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu'r sector cyhoeddus wrth edrych tua'r dyfodol. Ers hynny mae adolygiad o sgiliau wedi dechrau.

51 Rydym wedi nodi'n flaenorol bod angen gwella hyfforddiant sefydlu ar gyfer Aelodau Annibynnol. Er y bu rhywfaint o welliant, gyda llyfrgell ganolog o adnoddau bellach wedi cael ei datblygu ar gyfer Aelodau Annibynnol newydd, mae cynnydd pellach i'w wneud o hyd. Mae Aelodau Annibynnol yn cael hyfforddiant sefydlu corfforaethol a chenedlaethol fel rhan o'u penodiad. Fodd bynnag, byddai

rhaglen sefydlu wedi'i theilwra sy'n berthnasol i swyddogaethau a heriau'r Bwrdd Iechyd yn cynorthwyo aelodau i ymgyfarwyddo’n gynt â'u rolau. Mae'r Bwrdd yn dal i ddefnyddio sesiynau datblygu i ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau. Fodd bynnag, gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd newydd wedi’u penodi erbyn hyn, mae cyfle i archwilio opsiynau ar gyfer datblygu rhaglen ddatblygu fanylach sy'n canolbwyntio ar ddatblygu Bwrdd cydlynol.

52 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau’n dal i ddatblygu. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Ebrill 2022, a oedd hefyd yn cynnwys adolygiad eang o'r pwyllgorau yn dilyn newidiadau a wnaed i’r strwythur pwyllgorau yn 2021. Cafodd y canlyniadau eu hystyried yn un o sesiynau datblygu'r Bwrdd ac ystyriwyd fod y trefniadau’n effeithiol ar y cyfan. Er bod sawl pwynt ar gyfer gwella wedi'u nodi, nid yw'n glir pa gamau sydd wedi cael eu cymryd o ganlyniad. Gallai fod o fudd i’r Bwrdd Iechyd sefydlu proses ar gyfer paratoi cynllun gweithredu yn dilyn adolygiadau o effeithiolrwydd y Bwrdd yn y dyfodol gyda’r camau gweithredu’n gallu cael eu monitro wedyn (**Argymhelliad 9a**). Hefyd, ni ddyrennir amser i adolygu effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar y diwedd. Fodd bynnag, mae adolygiad anffurfiol o gyfarfodydd pwyllgorau gan Ysgrifennydd y Bwrdd, a Chadeirydd y pwyllgor perthnasol a’r Swyddog Gweithredol arweiniol wedi cael ei gyflwyno yn y ddau gylch diwethaf. Byddai cynnwys eitem i adolygu cyfarfodydd ar holl agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau’n gwella trefniadau adolygu'r Bwrdd Iechyd yn sylweddol (**Argymhelliad 9b**).

## Dylunio sefydliadol

53 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd yn cefnogi llywodraethu effeithiol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Gweithredol yn glir, ac oes ganddynt bortffolios gwaith cytbwys a theg; ac
- a oes eglurder ynghylch rôl Ysgrifennydd y Bwrdd, ac a oes digon o adnoddau i gefnogi gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau.

54 Canfuom, **er gwaethaf rhai penodiadau newydd, fod newid parhaus o hyd ar lefel Weithredol ac amrywiadau anghymesur ymhlith rhai portffolios. Mae trefniadau llywodraethu interim bellach wedi cael sylw; fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i gapasiti i gefnogi'r swyddogaeth lywodraethu.**

55 Bu cryn symud ymhlith Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi cynnwys:

- Trefniadau interim ar gyfer Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, a Chyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd. Roedd swydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn un interim yn ystod 2022 hefyd, gyda phenodiad parhaol wedi cael ei wneud erbyn hyn.
- Y Cyn-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl yn symud i swydd newydd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd o fewn y Bwrdd Iechyd, gyda’r disgwyl bellach y bydd deiliad y swydd yn gadael ym mis Mawrth 2023.
- Y Cyn-Gyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn symud dros dro i swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn symud dros dro i rôl y cyfarwyddwr.
- Cyfarwyddwr newydd ar gyfer Nyrsio a Bydwreigiaeth.

56 Bu newidiadau diweddar o fewn y Tîm Llywodraethu Corfforaethol hefyd ac mae nifer o swyddi interim yn bodoli ar y lefel weithredol uwch. Er bod gweithgarwch wedi aros yn sefydlog, mae risg sefydliadol a ddaw yn sgîl symudiadau ar lefelau uwch, ac mae nifer y swyddi interim yn awgrymu y gallai fod mwy o newid i ddod. Gall hyn achosi ansefydlogrwydd i wasanaethau a'r staff sydd islaw’r swyddi hyn. Dylai'r Bwrdd Iechyd anelu at leihau nifer y swyddi interim i greu mwy o sefydlogrwydd ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy **(Argymhelliad 10).**

57 Er gwaethaf y newidiadau a'r trefniadau interim, mae’r portffolios gweithredol yn eglur. Mae ystod dda o Gyfarwyddwyr Gweithredol, ac mae'r Tîm Gweithredol yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae portffolio’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl yn sylweddol. Mae rolau dirprwy i’w cael o fewn y strwythur. Fodd bynnag, o ystyried maint gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ym Mhowys o'i gymharu â byrddau iechyd eraill, gallai'r gwaith y mae ei angen o fewn y portffolio fod yn anghymesur. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi profi anhawster penodi i'r rôl hon, sydd o bosibl yn effeithio ar barhad gwasanaethau ac ar wreiddio cyfeiriad strategol.

58 Mae’r trefniant dros dro ar gyfer rôl Ysgrifennydd y Bwrdd wedi rhoi cymorth da i'r Bwrdd yn ystod y cyfnod interim. Mae rôl Ysgrifennydd y Bwrdd wedi parhau'n annibynnol ac mae wedi parhau i fod â llinellau atebolrwydd eglur i'r Cadeirydd. Fodd bynnag, mae'r capasiti i gefnogi rôl Ysgrifennydd y Bwrdd wedi bod yn her, gyda sawl aelod o'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn gadael yn gynnar yn 2022. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i gymryd rhai camau gweithredu mewn perthynas â llywodraethu sy’n dal heb gael eu cyflawni. Bu ailalinio diweddar rhwng y swyddogaethau llywodraethu a busnes corfforaethol i greu capasiti ychwanegol a hwythau’n parhau i fod yn annibynnol. Yn flaenorol, roedd rôl Pennaeth Risg a Sicrwydd, ond mae hon bellach wedi mynd. Bydd angen i Ysgrifennydd newydd y Bwrdd ystyried a oes digon o gapasiti o fewn ei dîm, ac a yw'r aliniad yn rhywbeth y mae angen ei gadw.

**Arddangosiad 2: cynnydd a wnaed gydag argymhellion o flynyddoedd blaenorol.**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd**<br>A2 Nodir yn y Rheolau Sefydlog ei bod hi'n ofynnol sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, ond nid oes gan y Bwrdd Iechyd fforwm o'r fath. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd i gynghori'r Bwrdd ynghylch strategaeth a chyflawniad lleol (2018). | **Wedi’i ddisodli**<br>Wedi’i ddisodli gan A8 2022 (gweler **Arddangosyn 1**) |
| **Hygyrchedd y Rhyngrwyd**<br>A4 Nid yw tudalennau rhyngrwyd y Bwrdd Iechyd yn cynnig mynediad at bolisïau cyfredol fel y polisi atal twyll. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei wefan er mwyn cynnig mynediad rhwydd at bolisïau a strategaethau cyfredol (2018). | **Disodli**<br>Wedi’i ddisodli gan A5 2022 (gweler **Arddangosyn 1**) |
| **Ansawdd Papurau Cyflwyno ar gyfer Adroddiadau’r Bwrdd**<br>A6 Mae'r dull o lenwi papurau cyflwyno adroddiadau yn amrywio, a allai gyfyngu ar allu aelodau'r bwrdd i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf. Dylai'r Bwrdd Iechyd wella papurau cyflwyno adroddiadau er mwyn sicrhau eu bod | **Wedi’i gwblhau**<br>Mae'r defnydd o bapurau cyflwyno adroddiadau’r Bwrdd wedi gwella'n sylweddol. |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| yn amlygu agweddau pwysig yr adroddiad, yn hytrach na disgrifio cynnwys neu ddiben yr adroddiad yn unig (2018). | |
| **Sefydlu aelodau annibynnol**<br>A1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn profi cyfnod o newid sylweddol o fewn ei garfan o aelodau annibynnol. Rhaid i aelodau annibynnol gael eu cynorthwyo'n briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau trwy ddarparu rhaglen sefydlu ddigonol a datblygiad parhaus er mwyn iddynt allu craffu'n effeithiol ar yr wybodaeth a gyflwynir iddynt. I ategu'r rhaglen sefydlu genedlaethol, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu rhaglen leol o hyfforddiant sefydlu cyn gynted â phosibl i helpu aelodau annibynnol newydd i ymgynefino'n gyflym â'u rôl (2021). | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae sefydlu ar gyfer Aelodau Annibynnol newydd bellach yn cael ei ystyried yn faes ffocws parhaus. |
| **Penodi aelodau cyswllt o'r Bwrdd**<br>A2 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw aelodau cyswllt o'r Bwrdd ar hyn o bryd i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau. Yn flaenorol roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Plant ac Oedolion) o Gyngor Sir Powys yn aelod cyswllt o'r Bwrdd ond nid yw wedi mynychu. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Chyngor Sir Powys i ganfod rhywun addas yn ei le cyn gynted â phosibl (2021). | **Wedi'i gwblhau**<br>Penodwyd Cyswllt Aelod o'r Bwrdd ym mis Ionawr 2023 |
| **Papurau ar gyfer agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau**<br>A3 Trefnir bod bwndeli agendâu cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, ar rai achlysuron caiff rhai papurau eu darparu'n hwyr a'u hychwanegu at fwndel ar wahân a elwir yn 'bapurau atodol'. Nid yw papurau hwyr yn caniatáu digon o amser ar gyfer craffu ac mae defnyddio'r term papurau atodol yn gamarweiniol. Dylai'r Bwrdd | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae nifer y papurau hwyr wedi gwella'n sylweddol, ac ni ddefnyddir bwndeli atodol mwyach. |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| Iechyd sicrhau cyn gynted â phosibl bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn:<br>• lleihau, hyd y gellir, yr arfer o gynnwys papurau hwyr;<br>• rhoi'r gorau i'r arfer o enwi papurau hwyr yn rhai 'atodol'; ac<br>• ymgorffori papurau hwyr ym mhrif fwndel yr agenda wrth gyhoeddi papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar y wefan (2021). | |

# Rheoli adnoddau ariannol

59 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ynglŷn â threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- trefniadau ar gyfer cyflawni amcanion ariannol allweddol;
- rheolaethau ariannol; a
- threfniadau ar gyfer adrodd a monitro perfformiad ariannol.

60 Mae manylion y cynnydd a wnaed gydag argymhellion o flynyddoedd blaenorol mewn perthynas â threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli adnoddau ariannol i'w gweld yn **Arddangosyn 3**.

61 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd hanes da o reoli ei adnoddau ariannol. Fodd bynnag, mae bellach yn wynebu pwysau sy'n golygu ei fod yn annhebygol o gyflawni rhai o'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2022-23. Mae rheolaethau ariannol wedi cael eu cryfhau i reoli'r risg hon. Ceir adroddiadau ariannol da, sy'n cefnogi goruchwyliaeth a chraffu agored a thryloyw.**

## Amcanion ariannol

62 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried

- a wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni ei amcanion ariannol ar gyfer 2021-22, ac a yw ar y trywydd iawn i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022-23; ac
- a oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol eglur a chadarn, sy'n cynnwys arbedion realistig a chynaliadwy a chynlluniau gwella costau.

63 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021-22. Er bod ganddo gynllun ariannol mantoledig ar gyfer 2022-23, yn awr mae'n rhagweld diffyg ariannol ar ddiwedd blwyddyn sy'n golygu y bydd yn methu â chyflawni rhai dyletswyddau ariannol.**

64 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021-22, gan ddiweddu'r flwyddyn â gwarged bach o £80,000. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa adennill costau refeniw dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2019 a 22 hefyd ac fe gyflawnodd ei ddyletswydd o ran y terfyn adnoddau cyfalaf gyda gwarged bach o £67,000.

65 Roedd gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol mantoledig ar gyfer 2022-23; fodd bynnag, ym mis 4 2022-23, dechreuodd adrodd ar ddiffyg ariannol o £7.5 miliwn a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn. Ym mis 10 yn 2022-23, mae'r sefyllfa a ragwelir diffyg o £7.5 miliwn yw'r sefyllfa a ragwelir o hyd. Bydd y diffyg ariannol a ragwelir gan y Bwrdd Iechyd yn golygu y bydd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer cyllid refeniw yn 2022-23.

66 Mae sefyllfa refeniw ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022-23 yn anwadal gyda phwysau o gostau Gofal Iechyd Parhaus, costau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch a gomisiynir (yn enwedig gan ddarparwyr yn Lloegr), a chostau cyflog amrywiol. Mae gan y Bwrdd Iechyd ofyniad arbedion o £4.6 miliwn. Mae arbedion yn cael eu goleuo gan fframwaith effeithlonrwydd y Bwrdd Iechyd, egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd, a'r gweithgarwch herio a chraffu a ddarperir trwy'r grŵp buddsoddi dan arweiniad swyddogion gweithredol i sicrhau bod adnoddau'r Bwrdd Iechyd yn cael eu dyrannu'n briodol. Fodd bynnag, ym mis 10 yn 2022-23, dim ond £0.923 miliwn o arbedion oedd wedi cael eu cyflawni, y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau. Mae cyfleoedd ar gyfer arbedion anghylchol o £2.27 miliwn wedi cael eu cymhwyso ond mae hyn wedi gadael diffyg o £1.79 miliwn o arbedion yn ystod y flwyddyn, ac effaith o £4 miliwn ar arbedion cylchol yn y flwyddyn lawn. Mae peidio â chyflawni arbedion cylchol hefyd yn achosi risg i'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2023-24 oherwydd sefyllfa lle ceir diffyg sylfaenol cynyddol. Mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged o ran y terfyn adnoddau cyfalaf.

## Rheolaethau ariannol

67 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol i ddyrannu, awdurdodi, cofnodi a rheoli'r defnydd o'i adnoddau ariannol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau y cydymffurfir â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo;
- a yw'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal goruchwyliaeth briodol ar drefniadau a pherfformiad sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, ac atal twyll;
- a oes trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith; ac
- a gyflwynwyd datganiadau ariannol ar amser, a oeddent yn rhai heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

68 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar gyfer rheoli a rheolaeth ariannol sydd wedi cael eu huwchgyfeirio ar lefel weithredol i leihau effaith pwysau ariannol yn ystod y flwyddyn.**

69 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn i sicrhau y cydymffurfir ag offerynnau statudol, ac i hysbysu am achosion o'u torri. Cymeradwywyd gweithdrefnau rheolaeth ariannol wedi'u diweddaru gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Ionawr 2022, ac mae adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ar Weithredoedd Tendr Sengl), a cholledion a thaliadau arbennig. Dim ond wyth o Weithredoedd Tendr Sengl yr adroddwyd arnynt rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2022, yr oedd pump ohonynt yn ddarpar gymeradwyaethau i Weithredoedd Tendr Sengl. Rhoddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol sicrwydd sylweddol ynghylch rheolaethau cyllidebol y Bwrdd Iechyd, a sicrwydd rhesymol ynghylch systemau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan gynnwys y gyflogres, cyfrifon taladwy a chontractwyr gofal sylfaenol. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniant atal twyll rhagweithiol gydag adroddiadau ar achosion yn cael eu cyflwyno i gyfarfod cyhoeddus y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd er mwyn tryloywder.

70 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n rheoli ei gostau ac yn cymryd camau i reoli gwariant. Mae grwpiau prosiectau penodol wedi cael eu sefydlu i ganolbwyntio ar reoli pwysau ariannol sy'n ymwneud â chostau cynyddol Gofal Iechyd Parhaus, gweithgarwch a gomisiynwyd, a chyflogau amrywiol ar gyfer nyrsio oherwydd swyddi gwag. Mae pob grŵp yn adrodd wrth y Pwyllgor Gweithredol ac yn darparu atebion ymarferol i leihau effaith pwysau o ran costau i'r eithaf. Mae prosesau cadarn ar waith ar gyfer rheoli ariannol hefyd. Mae llythyrau atebolrwydd wedi cael eu dyroddi ar gyfer pob cyfarwyddiaeth gan y Prif Weithredwr. Maent yn nodi'r gofynion ariannol, gan gynnwys cyflawni arbedion a chyfleoedd ar gyfer gwella, a gostyngiad ar gyfraddau a ragwelir. Ers adrodd ar ddiffyg a ragwelir, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi ei hun mewn adferiad ariannol ac wedi sefydlu Grŵp Tasg Perfformiad a Chyllid sy'n adrodd wrth y Pwyllgor Gweithredol. Mae cyfarfodydd i fonitro'r sefyllfa ariannol ar lefel cyfarwyddiaethau wedi cynyddu o rai chwemisol i rai misol, ac mae'r model partner busnes cyllid, sy'n cyd-fynd â'r cyfarwyddiaethau, yn cefnogi'r ffocws cyfredol ar leihau'r diffyg ariannol.

71 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da i'w harchwilio. Ni nodwyd unrhyw wendidau sylweddol o ran rheolaeth ariannol yn ein gwaith ar y cyfrifon a oedd yn teilyngu barn amodol, er y rhoddwyd cyfrif mewn modd anghywir am sawl trafodiad. Fodd bynnag, nodwyd gwendidau o ran rheolaeth ariannol yn y cyfrif cronfeydd elusennol, gan na roddwyd cyfrif yn y modd cywir am sawl eiddo a gyflwynwyd yn rhodd. Fe gyhoeddom ni farn amodol ynglŷn â rheoleidd-dra ar gyfer pob bwrdd iechyd oherwydd rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr.

## Trefniadau monitro ac adrodd

72 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio perfformiad ariannol y sefydliad, yn craffu arno ac yn ei herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw adroddiadau i'r Bwrdd yn rhoi darlun clir o sefyllfa ariannol y sefydliad, yn ogystal â'r heriau a risgiau ariannol allweddol a chamau lliniaru a gymerwyd; a
- a yw aelodau'r bwrdd yn herio asesiadau parhaus o'r sefyllfa ariannol yn ddigonol.

73 Canfuom fod **gweithgarwch i oruchwylio a chraffu ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd wedi gwella gyda gwybodaeth fwy amserol bellach yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd a phwyllgorau perthnasol.**

74 Mae gan y Bwrdd Iechyd adroddiadau ariannol cynhwysfawr sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad. Mae'r adroddiad yn nodi trosolwg eglur o refeniw, y sefyllfa a ragwelir, perfformiad yn erbyn arbedion gofynnol, gweithgarwch a gomisiynwyd, gwariant cyfalaf, ac mae'n cynnwys y ffurflenni monitro misol. Darperir gwybodaeth fanwl hefyd am y ffactorau allweddol sy'n rheoli costau a'r amrywiadau rhwng costau ar gyfer pob un o'r cyfarwyddiaethau. Mae amseriad cyfarfodydd y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad wedi cael ei addasu i sicrhau mai'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf yw'r wybodaeth yr adroddir arni.

75 Mae'r risg gorfforaethol mewn perthynas â'r sefyllfa ariannol wedi cynyddu ers i'r Bwrdd Iechyd adrodd ar ddiffyg a ragwelir ar gyfer 2022-23 a'r cyfnod treigl o dair blynedd. Cafwyd adroddiadau manwl a gonest mewn perthynas â'r heriau ariannol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad a chyfarfodydd y Bwrdd yr arsylwom ni arnynt. Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei monitro'n agos gan y Pwyllgor Gweithredol hefyd.

**Arddangosyn 3: cynnydd a wnaed gydag argymhellion o flynyddoedd blaenorol.**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**<br>A1 Mae rhai problemau gyda gweithrediad y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau[5]. Nid yw'r Pwyllgor wastad yn cael adroddiadau ar gyllid a pherfformiad i graffu arnynt cyn y Bwrdd. Mae | **Wedi'i gwblhau**<br>Gweler **paragraff 75**. |

[5] Yn 2020 fe newidiodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad.

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| papurau cyllid hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar ôl y brif set o bapurau gan leihau'r amser sydd ar gael i baratoi. Er bod cynllun gwaith y Pwyllgor yn dynodi y bydd yn cael adroddiadau ar gyflawni arbedion ym mhob cyfarfod, nid felly y mae hi bob amser. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) adolygu trefn cyfarfodydd i sicrhau bod amseriad cyfarfodydd yn cefnogi gwaith craffu manwl ar gyllid a pherfformiad gan y Pwyllgor; a<br>b) sicrhau bod papurau cyllid yn cael eu llunio a'u dosbarthu mewn modd amserol.<br>c) darparu adroddiadau ar gyflawni arbedion ar gyfer pob cyfarfod i gefnogi gwaith craffu ar y modd y bydd methiant i gyflawni rhai cynlluniau'n cael ei liniaru i sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu mantoli ar ddiwedd 2019-20 (2019). | |

# Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill

76 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn lefel-uchel ynglŷn â threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- trefniadau i gefnogi lles staff (sylwer y byddwn yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau'r sefydliad ar gyfer cynllunio'r gweithlu);
- trefniadau ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol; a
- threfniadau ar gyfer rheoli ei ystâd ac asedau ffisegol eraill.

77 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cefnogi lles staff, yn cydnabod pwysigrwydd yr agenda ddigidol, a bod ganddo oruchwyliaeth dda ar waith i reoli ei ystâd. Ond mae adnoddau i gefnogi technoleg ddigidol yn her barhaus.**

## Cefnogi lles staff

78 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol i gefnogi lles staff. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw mecanweithiau i geisio barn staff am eu hanghenion lles yn effeithiol, ac a gymerir camau priodol i ymateb i ganfyddiadau; ac
- a yw camau i gefnogi a gwella lles staff eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd, gan gynnwys y camau a gymerwyd mewn ymateb i'n hadroddiad ar sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles eu staff yn ystod pandemig COVID-19[6].

79 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol gefnogi a goruchwylio lles staff, ond y gellid gwneud mwy i fonitro cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol.**

80 Mae lles staff yn flaenoriaeth amlwg i'r Bwrdd Iechyd. Un o'r blaenoriaethau allweddol o fewn CTCI y Bwrdd Iechyd yw sicrhau gwelliannau i les staff ac ymgysylltiad â hwy. Ym mis Tachwedd 2021, mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Lles a Phrofiad Staff. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar chwe chonglfaen lles staff ac ymgysylltu â staff gyda nodau trosfwaol i wneud y gorau o iechyd galwedigaethol a datblygu mecanweithiau i ddeall a thracio lles staff. Adlewyrchir y conglfeini hyn yn y CTCI. Yn y diweddariad diweddaraf ym mis Tachwedd 2022, roedd camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i hybu defnydd o'r offeryn cenedlaethol ar gyfer sgyrsiau lles, adolygu ac ailddylunio'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol, a datblygu a gweithredu dull o gefnogi lles ariannol staff.

81 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio ffyrdd o gasglu adborth staff. Yn flaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal arolygon lles staff. Ar gyfer 2022, roedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu defnyddio'r Arolwg Staff Cenedlaethol i ofyn am adborth, ond gan bod hyn wedi cael ei ohirio, mae proses arolwg wedi'i thargedu yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd i gael bras amcan o les mewn meysydd risg uchel. Mae tystiolaeth bod yr arolygon hyn yn goleuo camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, arweiniodd y lefelau salwch staff uchaf mewn perthynas â straen a gorbryder at y newidiadau i'r model iechyd galwedigaethol ynghyd â mwy o gapasiti. Defnyddiwyd adborth o'r arolwg i oleuo trefniadau gweithio ystwyth, a arweinir gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd.

82 Mae trefniadau da ar waith i oruchwylio lles staff. Yn 2021, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Bwyllgor y Gweithlu a Diwylliant. Y pwyllgor hwn sy'n gyfrifol am oruchwylio'r blaenoriaethau perthnasol ar gyfer y gweithlu yn y CTCI, ynghyd â gweithredu'r Fframwaith Lles a Phrofiad Staff, gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu. Ym mis Rhagfyr 2021, cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ein hadroddiad Gofalu am y Gofalwyr. Cafodd Pwyllgor y Gweithlu a Diwylliant ymateb manwl i'n hargymhellion wedyn ym mis Ionawr 2022. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymateb yn cynnwys camau gweithredu 'parhaus' ac ni ddarparwyd diweddariadau pellach ar y cynnydd.

[6] Gofalu am y Gofalwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19.

## Rheoli adnoddau digidol

83 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol i reoli ei adnoddau digidol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes strategaeth ddigidol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar waith sy'n ceisio harneisio a manteisio ar dechnoleg ddigidol i wella ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi modelau gofal newydd a ffyrdd newydd o weithio; ac
- a yw manteision sy'n deillio o fuddsoddiadau mewn technoleg ddigidol yn cael eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd.

84 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod technoleg ddigidol yn alluogydd allweddol a'i fod yn datblygu ei fframwaith digidol, ond bod y seilwaith digidol ac argaeledd cyllid yn rhwystrau sylweddol i gyflawni.**

85 Mae pandemig COVID-19 wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i wireddu rhai o'i uchelgeisiau digidol ar garlam, ac yn ddiweddar mae wedi nodi ei Gynllun Trawsnewid Digidol am y tair blynedd nesaf. Adlewyrchir hyn yn CTCI y Bwrdd Iechyd trwy'r blaenoriaethau strategol 'Digidol yn Gyntaf', sy'n ymdrin â systemau, seilwaith a deallusrwydd digidol. Cymeradwywyd y Cynllun Trawsnewid Digidol gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2022, a chaiff cynnydd yn erbyn y cynllun a'r modd y cyflawnir y blaenoriaethau strategol ei fonitro trwy'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad. Mae Fframwaith Strategol Digidol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a hwnnw'n cael ei oleuo gan drafodaethau'r Bwrdd, a bydd yn gosod y fframwaith ar gyfer y trawsnewid digidol a'r deilliannau y mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl eu cyflawni.

86 Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau o sylfaen isel. Er bod adnoddau digidol y Bwrdd Iechyd wedi gwella dros y ddwy flynedd, mae adolygiadau archwilio mewnol ac allanol diweddar wedi darparu sicrwydd cyfyngedig ynghylch seilwaith TG y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys ei ddarpariaeth Wi-Fi. Nododd yr adroddiad Archwilio Mewnol saith argymhelliad, tair â blaenoriaeth ganolig a phedair â blaenoriaeth uchel. Mae hen offer, diogelwch rhwydweithiau, y modd cyfyngedig y mae systemau'n cael eu monitro, a phatsio switsys i gyd yn agweddau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae gan y Bwrdd Iechyd broblem barhaus gyda chysylltedd oherwydd natur wledig ei wasanaethau, sy'n dal i fod yn her. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ddibynnol iawn ar ddatrysiadau cenedlaethol. Mae cyllid cyfalaf ar gyfer 2022-23 wedi lleihau'n sylweddol ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu dyrannu unrhyw gyllid cyfalaf i dechnoleg ddigidol ar lefel leol.

## Rheoli'r ystâd ac asedau ffisegol eraill

87 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol i reoli ei ystâd ac asedau ffisegol eraill. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes strategaethau a chynlluniau a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar waith i reoli ystadau'r sefydliad a'i asedau ffisegol ehangach;
- a oes trefniadau priodol ar waith i'r Bwrdd adolygu prosiectau a rhaglenni cyfalaf sylweddol, craffu arnynt, eu herio a'u cymeradwyo; ac
- a oes trefniadau priodol ar waith i'r Bwrdd gynnal goruchwyliaeth briodol ar gyflwr yr ystâd ac asedau ffisegol eraill.

88 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd oruchwyliaeth dda ar y cyfan ar reoli ystadau, er y gellid gwella gwelededd a thrafodaeth ar lefel y Bwrdd.**

89 Mae ystadau'n rhan annatod o gynllun cyflawni'r Bwrdd Iechyd, gyda sawl blaenoriaeth yn y CTCI yn canolbwyntio'n benodol ar wella'r ystâd. Mae strategaeth ystadau'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, ac mae prosesau clir ar waith i ystyried sut y mae buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu, o fewn cyfyngiadau'r cyllid cyfalaf cyfredol, trwy Fwrdd Cyllido Ymgynghorol Ystadau. Mae nifer o brosiectau cyfalaf mawr eisoes ar waith sy'n hanfodol i gyrraedd nodau strategol y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect Machynlleth a Champws Lles Gogledd Powys.

90 Mae trefniadau da ar waith i oruchwylio prosiectau cyfalaf a chyflwr yr ystâd. Mae'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad yn cael diweddariadau gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ar feysydd gwaith sy'n cael eu hystyried gan y Grŵp Amgylcheddau Arloesol. Mae'r grŵp hwn, yn ei dro, yn ystyried gwybodaeth o ystod o is-grwpiau ystadau. Mae'r diweddariadau i'r pwyllgor yn cynnwys dangosfwrdd rhaglen gyfalaf a chrynodeb o'r cynnydd gyda phob un o'r prif brosiectau cyfalaf. Mae'r diweddariadau hefyd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gyflwr yr ystâd, megis cydymffurfio â rheoliadau tân a gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Rhoddir sylw da hefyd i agweddau ehangach sy'n berthnasol i'r ystâd megis yr agenda ddatgarboneiddio a gweithlu ystwyth. Mae adroddiadau gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd yn glir ac yn llawn gwybodaeth; fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu cyflwyno i bob pwyllgor. O ystyried pa mor hanfodol yw ystadau i gyflawni cymaint o gynlluniau byrdymor a hirdymor y Bwrdd Iechyd, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol sicrhau mwy o welededd a thrafodaeth sy'n canolbwyntio ar ystadau ar lefel y Bwrdd.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 4** yn nodi'r ymagwedd a fabwysiadwyd gennym ar gyfer cyflawni ein gwaith asesu strwythuredig yn y Bwrdd Iechyd.

**Arddangosyn 4: ymagwedd archwilio**

| Elfen o'r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad;<br>• Y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch; a hefyd<br>• Y Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth. |
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylchoedd gorchwyl, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau; |

| Elfen o’r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | • Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI;<br>• Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• Adroddiadau allweddol sy’n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;<br>• Polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cadeirydd y Bwrdd;<br>• Yr Is-Gadeirydd;<br>• Y Prif Weithredwr;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd;<br>• Cyfarwyddwr Interim Cynllunio a Pherfformiad;<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid; ac<br>• Ysgrifennydd Interim y Bwrdd |

# Atodiad 2

## Ymateb sefydliadol i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 5: Ymateb sefydliadol**

| Argymhelliad | | Ymateb rheoli | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Mae cyfleoedd yn bodoli i ymgysylltu ag Aelodau Annibynnol ar adeg gynnar yn y broses o gynllunio'r CTCI i alluogi'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswydd yn llawn i osod cyfeiriad strategol y sefydliad. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod Aelodau Annibynnol yn cael eu cynnwys yn briodol | **Derbyniwyd yr argymhelliad ar adeg y gwaith maes.** Ar gyfer 2023-26 (ac felly 2023-24), mae Aelodau Annibynnol wedi bod yn rhan o ddatblygu'r CTCI 2023-26 trwy sesiynau Datblygu a briffio'r Bwrdd dros y 5-6 mis diwethaf a phenllanw hynny oedd cyfarfod ffurfiol y Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Mae'r dull hwn wedi cyfrannu at gryfhau effeithiolrwydd ein bwrdd unedol ymhellach. | Wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr Strategaeth, Gofal Sylfaenol a Phartneriaethau a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | | Ymateb rheoli | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | ym mhob cam yn y broses o gynllunio'r CTCI. | | | |
| A2 | Mae adroddiadau cyflawni ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodir yn y CTCI yn rhai naratif yn bennaf a cheir diffyg ffocws ynddynt ar fesurau ac effaith. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd ailedrych ar ei adroddiadau cyflawni i sicrhau eu bod yn gryno, yn rhoi llai o bwyslais ar naratif, ac yn canolbwyntio'n fwy ar fesurau ac effaith. | **Argymhelliad wedi'i dderbyn.**<br>Bydd adroddiadau monitro cynnydd y CTCI yn y dyfodol yn cynnwys ffocws gwell ar fesurau ac effaith. Mae'r cyfeiriad at effaith yn adlewyrchu rhywfaint o'r sgwrs yn y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad, a'r Bwrdd. Rydym yn cael llawer o ddata a gwybodaeth am berfformiad yn erbyn targedau ac mae gwaith ar y gweill, bydd adroddiadau ar berfformiad y CTCI yn y dyfodol yn fwy cryno ac yn cynnwys ffocws mwy pendant, gan gynnwys dolenni i fanylion pellach pe bai aelodau'r Bwrdd yn dymuno ymchwilio ymhellach i'r manylion. | Diwedd Mehefin 2023 | Cyfarwyddwr Interim Perfformiad a Chomisiynu |
| A3 | Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiweddaru sy'n mapio'r holl gyfleoedd a risgiau i gyflawni | **Argymhelliad wedi'i dderbyn.**<br>Bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n gynhwysfawr cyn 31 Mawrth 2024. Yn y cyfamser, bydd y gofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei hadnewyddu i | 31 Mawrth 2024 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | | Ymateb rheoli | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | amcanion strategol, yn nodi bylchau mewn sicrwydd, ac yn goleuo cynlluniau gwaith y Bwrdd a phwyllgorau. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. | adlewyrchu'r risgiau perthnasol ar gyfer y CTCI 2023-24 a bydd sicrwydd perthnasol yn cael ei fapio i mewn i'r gofrestr. | | |
| A4 | Mae datgysylltiad ar hyn o bryd rhwng cofrestrau risgiau Cyfarwyddiaethau a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r holl risgiau uchel ar gofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau bod y rhai perthnasol yn cael eu huwchgyfeirio at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a bod y | **Argymhelliad wedi'i dderbyn yn rhannol.** Cafodd y gofrestr risgiau corfforaethol ei hadnewyddu yn ystod haf 2022 ac yna ei diweddaru a'i hadolygu ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd ers hynny. Mae pob risg gorfforaethol wedi'i pherchnogi gan berchennog risg ar lefel weithredol; mae'r Pwyllgor Gweithredol yn adolygu'r gofrestr o leiaf bob 2 fis. Mae cofrestrau risgiau'r cyfarwyddiaethau yn cael eu perchenogi gan bob cyfarwyddiaeth a gellir uwchgyfeirio'r risgiau perthnasol ar unrhyw adeg. | Adolygiad llawn o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol – Gorffennaf 2023<br>Adolygiadau Cyfarwyddiaethol - Diwedd mis Medi 2023 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb rheoli | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Bwrdd yn ymwybodol o'r risgiau ehangach a allai ddod yn ffaith. | Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei hadolygu yng ngoleuni CTCI 2022-23 a bydd adolygiadau o risgiau yn cael eu cynnal gyda phob cyfarwyddiaeth dros yr haf hyd at hydref 2023 (dan arweiniad Llywodraethu Corfforaethol) a fydd yn rhoi cyfle pellach i sicrhau aliniad rhwng cofrestrau cyfarwyddiaethau a chorfforaethol.<br>Bydd y Grŵp Risg a Sicrwydd yn ailgychwyn o fis Medi 2023 hefyd. | Grŵp Risg a Sicrwydd - Medi 2023 | |
| A5 Mae cyfleoedd yn bodoli i wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau allweddol y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau:<br>a) bod polisïau a gweithdrefnau, a'r gofrestr o fuddiannau ar y wefan gyhoeddus, yn hygyrch; a<br>b) bod y dogfennau allweddol, gan gynnwys Rheolau Sefydlog, ar y wefan gyhoeddus yn cyd-fynd â'r | **Argymhelliad wedi'i dderbyn yn rhannol.**<br>a) Polisïau a gweithdrefnau - penderfynodd y Bwrdd Iechyd ddarparu'r holl ddogfennau trwy'r fewnrwyd i staff. Mae polisïau allanol perthnasol ar gael ar y wefan, er enghraifft cyfleu cwyn (Gweithio i Wella). Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i sicrhau bod dogfennau perthnasol ar gael i'r cyhoedd trwy'r wefan.<br>b) Dogfennau allweddol – derbyniwyd hyn ar adeg y gwaith maes, mae'r holl ddogfennau bellach wedi cael eu diweddaru. | Medi 2023 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb rheoli | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| fersiwn a gymeradwywyd yn fwyaf diweddar. | | | |
| A6 Nid oes unrhyw fecanweithiau i Gadeiryddion pwyllgorau gwrdd yn ffurfiol y tu allan i gyfarfodydd pwyllgorau i rannu pryderon ac arfer da, ac nid oes mecanweithiau ar waith ychwaith i olrhain materion a chamau gweithredu a gyfeiriwyd rhwng pwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd roi mecanwaith ar waith:<br>a) i alluogi cadeiryddion pwyllgorau i ddod at ei gilydd yn rheolaidd; a<br>b) i'w gwneud yn bosibl tracio materion a chamau | **Argymhelliad wedi'i dderbyn.**<br>a) Mae fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau wedi cael ei sefydlu a chyfarfu am y tro cyntaf ar 25 Ebrill, ac yn chwarterol wedi hynny.<br>b) Mae tracio materion a chamau gweithredu rhwng Pwyllgorau bellach yn digwydd gan ddefnyddio'r templed newydd ar gyfer logiau o gamau gweithredu. Bydd mecanwaith adborth yn cael ei ymgorffori'n ôl i bwyllgorau perthnasol. | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | | Ymateb rheoli | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | gweithredu a gyfeirir rhwng pwyllgorau a darparu adborth pan fyddant wedi'u cwblhau. | | | |
| A7 | Nid yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn clywed gan staff, ac nid yw ymweliadau gan y Bwrdd wedi cael eu hadfer ers y pandemig. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd gynyddu cyfleoedd i aelodau'r Bwrdd glywed gan staff. Dylai hyn gynnwys defnyddio straeon staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, ac adfer ymweliadau gan y Bwrdd ar frys. | **Argymhelliad wedi'i dderbyn.** Mae ymweliadau gan y Bwrdd yn cael eu cynnal yn weithredol gan y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr gweithredol eraill. Derbynnir bod angen ehangu hyn i'r Bwrdd cyfan. Bydd dull gweithredu'n cael ei ddatblygu a'i roi ar waith o 1 Medi 2023. | 1 Medi 2023 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A8 | Er gwaethaf gofynion y Rheolau Sefydlog, nid oes gan y Bwrdd Iechyd Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol na Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid o hyd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd | **Argymhelliad wedi'i dderbyn yn rhannol.** Bydd y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn cael ei adfer erbyn 30 Medi 2023. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid, er nad yw'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn ategu ein dull o | 30 Medi 2023 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | | Ymateb rheoli | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | sefydlu'r ddau grŵp fel mater o frys. | ymgysylltu â rhanddeiliaid ac felly ni fydd yn cael ei adfer ar hyn o bryd. | | |
| A9 | Mae cyfleoedd yn bodoli i wella hunan-adolygiadau o effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael eu cofnodi a'u monitro trwy gynllun gweithredu; a<br>b) cynnwys eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau i'w gwneud yn bosibl adolygu'r cyfarfod. | **Argymhelliad wedi'i dderbyn.**<br>a) Cynhaliwyd adolygiadau o berfformiad ar gyfer y Bwrdd a Phwyllgorau yn 2021-22 ac ar hyn o bryd maent yn cael eu cynnal eto ar gyfer 2022-23 - gan gynnwys cyfle i edrych ymlaen tuag at 2023-24. Fel pwynt gwella, bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i sicrhau bod camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu rhoi ar waith ac yn cael eu monitro mewn modd perthnasol.<br>b) Cyflwynwyd adolygiadau o gyfarfodydd y Bwrdd o fis Ionawr 2023 a byddant yn parhau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Bydd mecanwaith ar gyfer adolygu cyfarfodydd Pwyllgorau'n cael ei gytuno gan y Fforwm | 30 Mehefin 2023<br><br>O 1 Gorffennaf 2023 ymlaen | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb rheoli | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Cadeiryddion sydd newydd gael ei ffurfio ac yn cael ei roi ar waith o chwarter dau. | | |
| A10 Mae gan y Bwrdd Iechyd sawl swydd interim ar lefel uwch a all achosi ansefydlogrwydd i wasanaethau a staff. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio penodi'n barhaol i'r swyddi interim o fewn y tîm Gweithredol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. | **Argymhelliad wedi'i gydnabod.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn llwyr gydnabod yr angen am arweinyddiaeth sefydlog ar y lefel uwch. Yn ystod y misoedd diwethaf, gwnaed nifer o benodiadau parhaol sy'n cynnwys, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae unrhyw benodiadau i rolau interim yn digwydd ar sail ddetholus ac i alluogi'r Bwrdd Iechyd i ymateb i heriau ac amgylchiadau penodol. | Amh – ystyrir ei fod wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.